Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: [redacted]
Ebost / Email: [redacted]
www.wao.gov.uk

Mr David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 24 Ebrill 2015
Ein cyf: HVT/2314/fgb
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Gadeirydd

## Y BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU): YMGYNGHORIAD AR EGWYDDORION CYFFREDINOL

Diolch am y gwahoddiad i ddod i Swyddfa Archwilio Cymru i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rwy'n ymateb fel yr Archwilydd Cyffredinol am fod y materion a godwyd yn ymwneud yn bennaf â'm swyddogaethau fel archwilydd sector cyhoeddus Cymru.

Byddwch yn gwybod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i sefydlu fel bwrdd statudol ac, ers 1 Ebrill 2014, ei bod wedi bod yn gyfrifol am gyflogi staff, caffael gwasanaethau a darparu adnoddau eraill i'm galluogi i gyflawni fy swyddogaethau fel yr Archwilydd Cyffredinol.

Fel yr Archwilydd Cyffredinol rwy'n archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

Yn ogystal ag archwilio cyfrifon, rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau astudio, asesu ac arolygu eraill. Yng nghyd-destun y Bil, mae'n arbennig o berthnasol fy mod yn cynnal astudiaethau ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran cyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol, sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol (astudiaethau o dan adran 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Efallai ei bod yn briodol, wrth ymateb i'ch ymgynghoriad, i mi ganolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, yn hytrach na gwneud sylwadau mwy cyffredinol ar rinweddau polisi'r Bil. Felly, nid wyf wedi ceisio ymateb i bob un o gwestiynau eich ymgynghoriad ond, fel y nodir yn yr atodiad, rwyf wedi ceisio canolbwyntio ar gwestiynau perthnasol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â goblygiadau ariannol y Bil ac effeithlonrwydd a llywodraethu da ehangach o ran cynnal busnes cyhoeddus.

O gofio diddordebau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid, anfonaf gopi o'r ymateb hwn at Darren Millar AC a Jocelyn Davies AC.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*amg* *Atodiad: Ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)*

*cc* *Mr Darren Millar AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*
*Ms Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid*

# YMATEB ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I YMGYNGHORIAD Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AR EGWYDDORION CYFFREDINOL Y BIL RHEOLEIDDIO AC AROLYGU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU)

## C4. A ydych yn credu bod unrhyw faterion o bwys wedi'u hepgor o'r Bil neu a oes unrhyw elfennau rydych yn credu y dylid eu cryfhau?

*Hepgor hawliau mynediad ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru*

1. Mae cymal 69 o'r Bil, i bob diben, yn trosglwyddo'r swyddogaeth o gynnal astudiaethau ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (o ran cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol)[1]) o Weinidogion Cymru i Gofal Cymdeithasol Cymru. (Mae'r cymal hefyd yn ehangu'r swyddogaeth honno fel ei bod yn ymdrin â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran darparu gwasanaeth gofal a chymorth, h.y. nid yw wedi'i chyfyngu i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.) Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn trosglwyddo'r hawliau mynediad cysylltiedig ar gyfer cynnal astudiaethau o'r fath nac yn eu darparu i Gofal Cymdeithasol Cymru mewn unrhyw ffordd arall. Mae'n bosibl y bydd yr hepgoriad hwn yn atal Gofal Cymdeithasol Cymru rhag cynnal astudiaethau.

*Hepgor dyletswydd sydd ar Gofal Cymdeithasol Cymru i gyhoeddi adroddiadau*

2. Nid yw'r Bil yn trosglwyddo'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiadau ar astudiaethau o'r fath. Ymddengys y gall Gofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi astudiaethau gan ddefnyddio ei bwerau atodol o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i'r Bil, ac rwy'n disgwyl i Gofal Cymdeithasol Cymru ddewis cyhoeddi ei adroddiadau. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr a yw'r Cynulliad yn ymwybodol y byddai gan Gofal Cymdeithasol Cymru yr opsiwn o beidio â chyhoeddi adroddiadau ar ei astudiaethau (fel y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei wneud ar hyn o bryd), ac a yw'r Cynulliad yn fodlon ar sefyllfa o'r fath.

*Hepgor dyletswydd ar Gofal Cymdeithasol Cymru i geisio sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei swyddogaethau*

3. Wrth ddirymu adran 54 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae cymal 66 o'r Bil yn dirymu'r ddyletswydd gyffredinol (ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno) sydd ar Gyngor Gofal Cymru i gyflawni ei swyddogaethau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn ailddeddfu'r ddyletswydd honno fel ei bod yn gymwys i Gofal Cymdeithasol Cymru. Er fy mod yn disgwyl i'r sefydliad newydd barhau i geisio sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, efallai y bydd y penderfyniad i ddirymu'r ddyletswydd yn anfon y neges anghywir.

---

[1] Cynhwysir y swyddogaeth astudio hon ar hyn o bryd yn adran 95 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

**C5. A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?**

*Cynnydd mewn costau yn dilyn gwelliannau o ran ansawdd a ysgogwyd gan raddau barnu*

4. Mae tudalen 169 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno graddau barnu ansawdd o dan gymal 35 o'r Bil. Fodd bynnag, un pwynt na chyfeirir ato yw y gall ansawdd gwell arwain at gostau uwch i ddefnyddwyr gwasanaethau a, lle mae gofal yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, i bwrs y wlad. Yn aml gellir cyfiawnhau costau uwch yn gyfnewid am ansawdd gwell ond dylid cydnabod y posibilrwydd serch hynny.

*Y posibilrwydd y bydd y defnydd o daliadau cosb yn amharu ar y gwaith o reoleiddio darparwyr gwasanaethau yn briodol*

5. Mae cymal 51 o'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiadau cosb i ddarparwyr gwasanaethau am fethiannau megis peidio â chyflwyno ffurflen flynyddol, gyda symiau sy'n cyfateb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol (ar adeg ysgrifennu'r ymateb hwn credaf y byddai hyn hyd at £6,125). Pennir symiau cosbau gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Yn achos darparwr gwasanaethau tramgwyddus a gafwyd yn euog mewn llys câi unrhyw gosb (o dan gymal 50 o'r Bil) ei thalu i Gronfa Gyfunol y DU, fel sy'n digwydd fel arfer yn achos dirwyon, ond câi taliad cosb o dan gymal 51 ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru oherwydd adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6. Gan fod y broses o gael arian o Gronfa Gyfunol Cymru yn gofyn am gael cymeradwyaeth un ddeddfwrfa yn hytrach na dwy, a'i bod yn symlach felly na chael arian o Gronfa Gyfunol y DU, mae'n bosibl y bydd pryderon yn codi y gallai cosbau o dan gymal 51 ddylanwadu'n ormodol ar arferion gorfodi. Gallai'r gwaith o reoleiddio darparwyr gwasanaethau yn briodol gael ei danseilio pe bai canfyddiad bod goblygiadau i sefyllfa ariannu Gweinidogion Cymru yn gysylltiedig â pha mor aml yr oedd cosbau yn cael eu gosod ac ar ba lefel yr oeddent yn cael eu gosod. Gellid mynd i'r afael â'r risg hon drwy ddrafftio’r rheoliadau cosbi a chraffu arnynt yn ofalus.

*Rhwystrau i astudiaethau Gofal Cymdeithasol Cymru o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd*

7. Gall yr hepgoriadau y cyfeiriwyd atynt o dan gwestiwn 4 uchod fod yn ganlyniadau anfwriadol, a gallant arwain at ganlyniadau anfwriadol, o ran Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal astudiaethau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**C9. Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 3 o'r Bil i newid enw a chyfansoddiad Cyngor Gofal Cymru gan roi’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru arno ac ehangu ei gylch gwaith?**

8. Gweler yr ateb i Gwestiwn 4.

## C13. Beth yw eich barn chi am oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?

9. Nid yw'n briodol i mi wneud sylwadau ar oblygiadau ariannol y Bil o ran rhinwedd polisi. Fodd bynnag, rwyf o'r farn ei bod yn briodol i mi roi fy marn ar eglurder y goblygiadau ariannol.

10. Ymddengys fod y Memorandwm Esboniadol (gweler Tabl 42 ar dudalen 279 a Thabl 43 ar dudalen 283) yn awgrymu y bydd cost ychwanegol net y Bil o ran costau trosiannol ynghyd â chostau parhaus ychwanegol yr opsiynau a ffefrir am bum mlynedd (llai arbedion yn ystod y cyfnod hwnnw) tua £9 miliwn. Mae costau trosglwyddo untro yn cyfrif am tua £3.4 miliwn o'r swm hwnnw, sy'n awgrymu costau net ychwanegol parhaus o £1.1 miliwn y flwyddyn. Ymddengys mai £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer graddau barnu ansawdd yw'r eitem unigol fwyaf o wariant parhaus sy'n deillio o'r Bil.

11. Fodd bynnag, rwy'n pryderu nad yw Tabl 42 yn rhoi darlun clir o'r costau ac y gall gynnwys rhai gwallau sylweddol, yn arbennig:

    a. ar dudalen 281 ymddengys fod y tabl yn cyfrif arbedion mewn perthynas â "diwydrwydd dyladwy darparwyr gwasanaethau allweddol"— ddwywaith ar gyfer y blynyddoedd 2017-18 i 2020-21, yn hytrach na chofnodi'r gost i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwyr yn gadael y farchnad fel sero (h.y. a ataliwyd), mae'r tabl yn dangos costau negyddol o £92,300 ym mhob blwyddyn (er mai dim ond tair blynedd sydd wedi'u hychwanegu at ei gilydd, yn ôl pob golwg), sy'n cyfateb i sefyllfa lle mae defnyddwyr gwasanaethau nid yn unig yn osgoi costau o £92,300 y flwyddyn ond lle mae'r swm hwnnw yn cael ei dalu iddynt bob blwyddyn. Ynghyd â chost llunio datganiadau cenedlaethol, ymddengys mai'r canlyniad yw bod cost arian parod Pennod 7 o Ran 1 o'r Bil wedi'i thanddatgan £276,900;

    b. mae paragraff 7.466 (gyda throednodyn 74) yn nodi bod yr arbedion mewn perthynas â "diwydrwydd dyladwy darparwyr gwasanaethau allweddol" yn seiliedig ar brisiad â gwerth ariannol o'r effaith o ran lles "yn sgil ymdrin yn drefnus â methiant darparwr gofal". Efallai nad ymdriniaeth drefnus yw'r digwyddiad cywir i'w ystyried, ond sut bynnag y pwynt nas eglurir yn Nhabl 42 yw bod y ffigur o £92,300 ar dudalen 281, yn hytrach na dynodi arbedion arian parod, yn brisiad o fudd. Nid oes dim byd o'i le ar ddarparu prisiadau â gwerth ariannol o fuddiannau, ond yn fy marn i gallai fod yn gamarweiniol i fuddiannau o'r fath gael eu cymysgu yng nghanol tabl o ffigurau arian parod;

    c. yn debyg i (a) uchod, ymddengys fod Tabl 42 yn cynnwys gwallau sy'n golygu bod arbedion sy'n deillio o gael gwared ar gofrestru gwirfoddol wedi'u tanddatgan tua £60,000.

12. Ymddengys i mi fod cymysgu buddiannau â gwerth ariannol â chostau arian parod yn golygu nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn bodloni gofyniad Rheol Sefydlog 26.2(vi), sef bod yn rhaid i'r Memorandwm Esboniadol:

> *nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*
>
> *(a) y costau gweinyddol a'r costau cydymffurfio gros a chostau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;*
>
> *(b) dros ba gyfnodau o amser y disgwylid i'r costau hynny godi.*

13. Ceir hefyd faterion eraill sy'n ei gwneud yn anodd cael darlun teg o gostau'r Bil, yn fy marn i, sef:

    a. mae'r ffaith bod costau'r Bil wedi'u cyflwyno drwy eu cynnwys mewn dadansoddiad hir o opsiynau (173 o dudalennau) yn unig yn golygu ei bod yn anodd nodi cyfansoddiad costau amrywiol heb eu drysu ag opsiynau heblaw am y Bil;

    b. mae'r tablau costau cryno (Tabl 42 a Thabl 43) i'w cael 166 o dudalennau i mewn i'r asesiad effaith rheoleiddiol, yn hytrach na chael eu cyflwyno ar y dechrau.

14. Nid wyf wedi ystyried cywirdeb amcangyfrifon cost unigol ac, felly, ni allaf wneud sylwadau arnynt yn hynny o beth.

15. Hyd y gallaf weld, nid oes unrhyw sail resymegol benodol dros ddarparu costau'r Bil yn nhermau costau trosiannol ynghyd â chostau parhaus ychwanegol yr opsiynau a ffefrir am bum mlynedd (llai unrhyw arbedion yn ystod y cyfnod hwnnw). Nid oes unrhyw beth i awgrymu mai pum mlynedd fydd hyd oes y Bil, felly mae'r ffigur o bum mlynedd ar ryw ystyr yn un mympwyol. Fodd bynnag, mae'n gyson ag Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eraill a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ac a geir mewn Memoranda Esboniadol.

16. Nodaf fod rhai o'r pwyntiau hyn yn faterion a godwyd gennyf yn flaenorol yn fy adroddiad *Adolygiad o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Ymhlith y pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad hwnnw mae'r canlynol:

    a. yr angen am grynodeb clir o gostau;

    b. y dylid ystyried y cyfnod priodol o amser ar gyfer dadansoddi costau;

    c. y dylid ymgorffori trefniadau ar gyfer datblygu asesiadau effaith a'u hadolygu'n fewnol.

17. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Memorandwm Esboniadol y Bil cyfredol ym mis Chwefror 2015, nid wyf yn siŵr a yw Llywodraeth Cymru wedi cael digon o gyfle i ystyried fy adroddiad.

## C14. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cynnig ynglŷn ag adrannau penodol o'r Bil?

*Cydweithredu mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian*

18. Mae paragraff 41 o Atodlen 3 i'r Bil yn diwygio adran 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithredu mewn perthynas â'u swyddogaethau perthnasol i gynnal astudiaethau gwerth am arian (h.y. swyddogaethau o dan adran 41 o Ddeddf 2004 a chymal 69 o'r Bil). Yn ymarferol, byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgarwch cydgysylltu synhwyrol sut bynnag, ond serch hynny mae'r ddarpariaeth hon yn un briodol. Mae'n adlewyrchu darpariaeth gyfatebol sydd eisoes ar gael yn adran 41 o Ddeddf 2004 ac mae'n ddull addas o sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a Gofal Cymdeithasol Cymru yn osgoi gwneud yr un gwaith neu fylchau anfwriadol mewn gwaith. Rwy'n ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi cydgysylltu â staff SAC mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.

19. Mae paragraffau 21 i 23 o Atodlen 3 i'r Bil hefyd yn diwygio adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn yr achos hwn, roedd y diwygiad yn cynnwys gofyniad ar yr Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i gydweithredu mewn perthynas â swyddogaeth Gweinidogion Cymru, a ailddeddfwyd[2], i adolygu astudiaethau a gwaith ymchwil gan eraill, a gaiff ei mewnosod fel adran 149A o Ddeddf Iechyd a Lles Cymdeithasol (Cymru) 2014 gan gymal 56 o'r Bil. Mae hyn yn ychwanegol at ofyniad i gydweithredu mewn perthynas â swyddogaeth Gweinidogion Cymru a ailddeddfwyd[3] (ond a ehangwyd) i gynnal adolygiadau o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Deallaf, gwaetha'r modd, na chydgysylltodd Llywodraeth Cymru â staff SAC ynghylch y gofyniad ychwanegol i gydweithredu a osodwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol o ran adolygiadau o astudiaethau a gwaith ymchwil. Fodd bynnag, hyd y gallaf weld, nid yw Gweinidogion Cymru (AGGCC) wedi cynnal unrhyw adolygiadau o'r fath o dan y pŵer presennol. Yn lle hynny, mae AGGCC yn adolygu gwaith ymchwil perthnasol wrth gynnal adolygiadau ac astudiaethau eraill (e.e., adran 95 o Ddeddf 2003). Os bydd y patrwm hwn o weithgarwch yn parhau, ni fydd i'r gofyniad ychwanegol oblygiadau ymarferol sylweddol. Fodd bynnag, mae'r patrwm o weithgarwch hefyd yn codi'r cwestiwn a oes angen ailddeddfu, yn enwedig am fod adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru i gyflawni gweithgareddau ar gyfer hybu lles.

20. Rwyf hefyd yn pryderu ynghylch cylchogrwydd posibl y sefyllfa a'i goblygiadau o ran annibyniaeth gwaith archwilio. Mae'r pŵer newydd o dan adran 149A i adolygu “astudiaethau ac ymchwil a wneir gan eraill” yn darparu i Weinidogion Cymru adolygu'r “dulliau a ddefnyddir mewn astudiaethau o’r fath [gan eraill]…a…dilysrwydd casgliadau astudiaethau.” Ymddengys fod hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru godi amheuaeth ynghylch dulliau a chasgliadau'r Archwilydd

[2] Mae'r ddarpariaeth bresennol yn adran 93 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

[3] Mae'r ddarpariaeth bresennol yn adran 94 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Cyffredinol ac eraill, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflwyno adroddiadau i'r perwyl hynny gerbron y Cynulliad.

21. Deallaf na fwriadwyd i'r ddarpariaeth wreiddiol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, y mae'r adran newydd yn deillio ohoni, gael ei defnyddio, o reidrwydd, fel yna, ac ymddengys fod hynny wedi'i gadarnhau yn ymarferol. Fel y dywed y Nodyn Esboniadol ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol, “This section enables the CSCI to evaluate work carried out by other bodies, such as academic institutions.” Serch hynny, gallai'r ddarpariaeth danseilio annibyniaeth gwaith archwilio.

*Gwerth am arian ac adran newydd 149D “Ystyriaethau cyffredinol” i'w mewnosod gan gymal 56*

22. Mae adran newydd 149D “Ystyriaethau cyffredinol” sydd i'w mewnosod gan gymal 56 o'r Bil i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys (yn is-adran (d)) yn ei rhestr o faterion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth gynnal adolygiadau, “darbodaeth ac effeithlonrwydd eu darpariaeth a’u gwerth am arian”. Mae'r geiriad braidd yn ddryslyd a chylchol. Gwerth am arian yw'r disgrifiad cryno o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gweler, er enghraifft, Ran 2 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (yr Alban) 2000), felly mae'r ymadrodd yn adran 149(d) yn debyg i “afalau, orennau a ffrwythau”.

*Swyddog Cyfrifyddu Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyfarwyddiadau Cyfrifon*

23. Mae paragraph 15(2) o Atodlen 2 i'r Bil yn nodi y bydd gan swyddog cyfrifyddu Gofal Cymdeithasol Cymru y cyfrifoldebau a nodir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, mae paragraff 16(2) yn nodi bod yn rhaid i gyfrifon Gofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. Er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, byddai'n ddymunol pe bai'r darpariaethau yn darparu ar gyfer cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys.